2026-27



# Aelodaeth QAA

Eich helpu i roi ansawdd ar waith

# Aelodaeth QAA: eich helpu i roi ansawdd ar waith

**Mae aelodaeth o QAA yn rhoi'r arweiniad arbenigol, yr adnoddau, y datblygiad proffesiynol a'r cyfleoedd rhwydweithio sydd eu hangen ar eich sefydliad i wella ansawdd, cynnal safonau academaidd a gwella profiad dysgu myfyrwyr.**



Trwy ddigwyddiadau, prosiectau wedi'u hariannu a chyfleoedd ymarferol i ddysgu gydag eraill, rydym yn eich helpu i fodloni gofynion rheoleiddio, ymateb yn hyderus i newid yn y sector a chynorthwyo eich timau i wreiddio arferion ansawdd effeithiol a chyson.

Mae ein pecynnau rhyngwladol hefyd yn rhoi mynediad i chi at drefniadau cydweithredol, partneriaethau, hyfforddiant a chyfleoedd newydd i gryfhau eich proffil byd-eang.





### Mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r sector gyda'n gilydd

Trwy ymuno â ni, rydych chi'n dod yn rhan o lais cyfunol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau allweddol ac yn sbarduno'r agenda ansawdd. Rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraethau, asiantaethau sector a chyrff dylanwadol eraill i lunio polisi ac arfer, gan flaenoriaethu ystyriaethau ansawdd mewn mentrau newydd ac esblygol.

Mae eich aelodaeth yn creu effaith wirioneddol ar draws y sector, gan ariannu prosiectau ac adnoddau cydweithredol sy'n ysgogi arloesedd ac yn datrys heriau cyffredin ynghylch pynciau fel deallusrwydd artiffisial, cynaladwyedd a chyflogadwyedd. Mae eich sefydliad yn elwa – ac felly hefyd y sector ehangach.

# Cyflawni effaith ar draws eich sefydliad cyfan

**Fel aelod, cewch fynediad at ddigwyddiadau unigryw, prosiectau cydweithredol ac adnoddau parod i'w defnyddio sy'n eich helpu i ragweld heriau a dangos eich ymrwymiad i ansawdd.**

**Mae cefnogaeth QAA yn golygu manteision clir ar draws eich sefydliad::**

- Mewnwelediad sy'n cryfhau eich strategaeth - eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio'n hyderus.
- Offer sy'n gwneud gwaith ansawdd yn haws - lleihau dyblygu a rhyddhau capasiti ar draws eich timau.
- Effeithlonrwydd sy'n lleihau risg - galluogi dealltwriaeth gyflym o ddatblygiadau newydd heb ailddyfeisio datrysiadau.
- Cymuned sy'n cyflymu eich cynnydd - rhoi mynediad i chi at gyfoedion sy'n wynebu'r un heriau.
- Dylanwad sy'n llunio'r sector - creu ffyrdd i chi fynd ati i ddiffinio sut olwg sydd ar waith da ar draws y sector.

# Beth sy'n newydd yn 2026-27

**Yn 2026-27, mae aelodaeth yn rhoi cynnig cryfach i chi sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'i adeiladu o amgylch pum thema bwysig sy'n effeithio ar addysg uwch yn y DU ac yn fyd-eang.**

**Mae'r themâu hyn yn seiliedig ar yr hyn sydd bwysicaf i'n haelodau, ac ar y tueddiadau a'r pwysau ehangach a welwn ar draws y sector - gan sicrhau bod cefnogaeth ar gael ble bydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf:**

| | |
|---|---|
| **Un** | **Ailgynllunio cwricwlwm**<br>eich helpu i ailystyried pensaernïaeth rhaglenni, cynllunio cynhwysol a hyblyg, ac integreiddio sgiliau ar gyfer diwydiant a'r dyfodol i ddarparu cwricwla cydlynol sy'n barod ar gyfer y dyfodol i fyfyrwyr. |
| **Dau** | **Cryfhau goruchwyliaeth partneriaethau**<br>eich cynorthwyo i lunio llywodraethiant ac atebolrwydd cryf, datblygu gallu partneriaeth ac addysgeg, yn ogystal â rhoi hyder i chi reoli risg academaidd ac enw da eich sefydliad. |
| **Tri** | **Ymateb i newidiadau polisi a rheoleiddio sy'n dod i'r amlwg**<br>rhoi gwybodaeth amserol a chymorth ymarferol i chi i baratoi ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF), bodloni disgwyliadau rheoleiddiol sy'n esblygu ac ymateb i flaenoriaethau dysgu gydol-oes |
| **Pedwar** | **Diogelu asesu ar gyfer y dyfodol t**<br>eich galluogi i gynllunio asesu dilys a chynhwysol, sy'n ymwybodol ô ddeallusrwydd artiffisial, gan gydbwyso arloesedd ag uniondeb academaidd a chynnal hyder mewn safonau. |
| **Pump** | **Trawsnewid prosesau ansawdd**<br>eich cynorthwyo i amddiffyn safonau academaidd, symleiddio trefniadau ansawdd a chryfhau prosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ar draws eich sefydliad. |



# Mae eich aelodaeth yn mynd i fod hyd yn oed yn well

**Fe ddywedoch chi wrthym eich bod chi eisiau atebion amserol, canllawiau defnyddiol a llais uwch er mwyn sicrhau ansawdd.**

**Eleni, mae aelodaeth yn rhoi deallusrwydd craffach i chi, mwy o ddylanwad a chymorth ymarferol y gallwch ei roi ar waith ar unwaith.**

**Mwy o gymunedau, mwy o gysylltiad** - trwy grwpiau cyfoedion newydd sy'n canolbwyntio ar bynciau a chymunedau rhwydweithio.

**Ardal Adnoddau Aelodaeth wedi'i chryfhau** - mae llyfrgell ddigidol 'My QAA' wedi'i hailgynllunio, sy'n haws i'w llywio, ar y gweill, wedi'i hadeiladu o amgylch eich adborth.

**Gwell Academi Ansawdd** - llwybr datblygiad proffesiynol y gellir adeiladu arno, wedi'i gynllunio ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag ansawdd.

**Global Insights** - mae ein pecyn ar ei newydd wedd yn eich darparu â gwybodaeth glir ac amserol, yn ogystal â chanllawiau ymarferol i gryfhau eich gweithgareddau rhyngwladol, rheoli risgiau, a gwella strategaeth a gweithrediadau.

**Hwb i'ch aelodaeth gyda Chynllun Ansawdd Addysg Draws-wladol y DU** - wedi'i ddatblygu gyda'r sector a'i gymeradwyo gan lywodraethau ledled y DU, mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth ymarferol i wella ansawdd eich partneriaethau addysg draws-wladol (ADW).

**Dysgwch fwy am yr ystod o fuddion a chyfleoedd i aelodau sydd ar gael i chi yn 2026-27:**

- Lloegr
- Gwledydd Danganoledig
- Rhyngwladol

# Y tu hwnt i gydymffurfiaeth: adeiladu gallu sy'n para

**Mae QAA yn helpu eich staff i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ymateb i heriau'r sector a chryfhau ansawdd ar gyfer y dyfodol. Mewn cyfnod o newid cyflym a phwysau cynyddol ar staff a systemau, rydym yn eich helpu i symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth i wydnwch a gallu hirdymor.**



"Fel darparydd bach, gall cadw'n gyfoes â newid yn y sector fod yn heriol. Mae aelodaeth o QAA yn rhoi eglurder a hyder i ni trwy arweiniad dibynadwy a chefnogaeth ymarferol, gan ein helpu i fodloni disgwyliadau'r sector a darparu profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr."
**Jane Nickisson, Deon Addysg Uwch, Coleg Reaseheath**

**Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n diwallu anghenion gwirioneddol**
Mae ein rhaglenni, rhwydweithiau a digwyddiadau dan arweiniad arbenigwyr yn rhoi canllawiau ymarferol i'ch timau y gallant eu defnyddio ar unwaith. Cewch fynediad at ddatblygiad wedi'i dargedu sy'n cau bylchau sgiliau ac yn cefnogi arferion ansawdd cyson a hyderus.

**Llwybr datblygiad strwythuredig ar gyfer eich staff**
Mae aelodaeth yn cynnig llwybr blaengar o raglenni dan arweiniad arbenigwyr sy'n mynd â chi o sgiliau ymarferol i arbenigedd dwfn. Wedi'u cynllunio ar gyfer pob lefel ac wedi'u gwreiddio mewn gwaith go-iawn, maent yn meithrin hyder wrth reoli ansawdd academaidd, safonau, a phartneriaethau addysg rhyngwladol a thraws-wladol, heb ychwanegu at eich llwyth gwaith.

**Y Labordy Ansawdd** - gweithdai â ffocws sy'n helpu eich timau i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o arfer ansawdd effeithiol.

**Yr Academi Ansawdd** - rhaglenni dysgu dwys, dros bythefnos, ar gyfer proffesiynwyr ansawdd, academyddion a chydweithwyr gwasanaethau proffesiynol sydd am feithrin arbenigedd dyfnach.

Mae aelodau rhyngwladol yn elwa o fformatau hyblyg, ar alw, y gellir cael mynediad atynt yn unrhyw le.

**25+**

**Mae 25+ awr o DPP ar gael i bob aelod o staff gydag aelodaeth QAA.**

Mae gwariant cyflogwyr ar hyfforddiant wedi gostwng 27% dros y degawd diwethaf, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu staff. Mae aelodaeth QAA yn gwrthdroi'r duedd honno - gan ddarparu DPP strwythuredig, dan arweiniad arbenigwyr sy'n cryfhau ansawdd sefydliadol.



# Digwyddiadau sy'n eich cysylltu â syniadau o fewn y sector

Mae ein rhaglen yn cynnwys Sgyrsiau Chwilfrydig ar gyfer safbwyntiau ffres a chipolwg ar faterion sy'n dod i'r amlwg, a Fforwm ar gyfer Syniadau ar gyfer archwiliad myfyriol o themâu arwyddocaol - o strategaeth ADW i risgiau ansawdd, heriau llywodraethiant a newid rheoleiddiol. .

**Blwyddyn o adeiladu capasiti**
Yn ystod y flwyddyn aelodaeth hon, rydym eisoes wedi croesawu dros 4,000 o gynrychiolwyr o fwy na 270 o ddarparwyr addysg uwch yn fyd-eang, ac rydym ar y trywydd iawn i ddarparu hyd yn oed mwy o weithgarwch dysgu nag yn 2024-25.

**Hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer addysg draws-wladol**
Fel rhan o Gynllun Ansawdd newydd ADW y DU, bydd sesiynau datblygiad proffesiynol yn ymdrin â phynciau gan gynnwys:

- diwydrwydd dyladwy a rheoli risg
- adolygu, datblygu a dod â phartneriaeth i ben
- llywodraethiant



"Mae'r hyfforddiant wedi gwneud gwahaniaeth ymarferol oherwydd fy mod i'n fwy ymwybodol o'r fframweithiau rheoleiddio presennol ledled y DU a sut maen nhw'n berthnasol i'r hyn rydyn ni'n ei wneud fel tîm ansawdd. Mae wedi cynorthwyo â fy natblygiad proffesiynol trwy hybu fy hyder a'm gwybodaeth."
**Cydlynydd Ansawdd a Rheoleiddio, Prifysgol Wrecsam**

# Dysgu trwy ddeialog: creu cysylltiad ar draws y sector

**Mae aelodaeth o QAA yn eich helpu i gysylltu â chyfoedion sy'n wynebu'r un heriau, gan roi'r lle i chi brofi syniadau, cael mewnwelediad a datrys problemau gyda'ch gilydd. Mewn sector sy'n cael ei siapio gan newid cyflym a chymhlethdod, mae perthnasoedd dibynadwy yn eich helpu i ymateb yn gyflymach a gweithredu'n hyderus.**

**Sut rydym yn eich helpu i adeiladu cysylltiad a chymuned**
Mae ein **cymunedau rhwydweithio a grwpiau cyfoedion sy'n canolbwyntio ar bynciau** yn cysylltu eich cydweithwyr â chyfoedion ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r rhain yn fannau diogel ac adeiladol lle gallwch rannu dulliau, cymharu datrysiadau a gweithio ar y cyd ar faterion sy'n dod i'r amlwg.

**Mae ein cymunedau rhwydweithio'n cynnwys:**

- Arweinwyr Gweithredol (Addysg, Addysgu a Dysgu)
- Rhwydwaith Arweinwyr Rhaglenni
- AU mewn Colegau
- Darparwyr Arbenigol ac Annibynnol
- Ymgysylltu â Myfyrwyr
- Rhwydwaith Ansawdd Cymru



**"Yr hyn rwy'n ei gael o'r rhwydwaith yw lle dibynadwy i brofi fy syniadau gyda chyfoedion sy'n wynebu heriau tebyg. Mae gallu archwilio syniadau heb ofni cael fy marnu, ac adeiladu ar brofiad ac adborth ein gilydd, wedi bod yn amhrisiadwy i mi."**
**Yr Athro John Murray, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu), Prifysgol Huddersfield**

**Global Insights**
Mae Global Insights yn cynnig pecyn ehangach o wybodaeth a chymorth rhyngwladol. Fel aelod, byddwch hefyd yn cael mynediad at dri rhwydwaith rhyngwladol ychwanegol, gan gryfhau cyfleoedd ar gyfer deialog a chydweithio:

- Ansawdd a phartneriaethau byd-eang
- Profiad a symudedd byd-eang
- Arweinwyr gweithredol (rhyngwladol).



# Digwyddiadau sy'n cryfhau cysylltiadau

Ochr-yn-ochr â'n rhwydweithiau, gallwch gael mynediad at ddigwyddiadau blaenllaw ar-lein ac wyneb-yn-wyneb, yn ogystal â sesiynau ymateb cyflym sy'n dod â'r sector ynghyd i wneud synnwyr o faterion sy'n dod i'r amlwg a rhannu dulliau ymarferol.

Mae ein cynadleddau blaenllaw yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr, proffesiynwyr ansawdd ac arbenigwyr sector i archwilio datblygiadau arwyddocaol a blaenoriaethau'r dyfodol. Trwy gydol y flwyddyn, mae ein sioeau teithiol rhithwir, cyfleoedd ar gyfer sylw i'r sector a gweminarau'n darparu cyfleoedd hygyrch i ddysgu gan gyfoedion sy'n wynebu problemau cyffelyb.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn creu cymuned ddeinamig, ymgysylltiedig sy'n hyrwyddo dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn symud ymlaen ar y cyd.

# Grwpiau cyfoedion newydd sy'n canolbwyntio ar bynciau

Gan lansio yn 2026-27, bydd y grwpiau hyn yn creu mannau wedi'u targedu ar gyfer cydweithio dyfnach ar heriau a rennir.

Yn dibynnu ar y pwrpas, byddant naill ai ar ffurf prosiectau gorchwyl a gorffen byr-dymor neu gymunedau arfer tymor hwy - ond bydd pob un yn cefnogi ymgysylltiad ystyrlon, dan arweiniad cyfoedion.



**"Yr hyn rwy'n ei werthfawrogi fwyaf am gefnogaeth QAA yw ei gallu i greu'r amodau ar gyfer cydweithio, myfyrio a gwella ar draws y sector. Mae cefnogaeth QAA wedi cyfrannu at sut rwy'n meddwl am ddylunio cwricwlwm, ymgysylltiad myfyrwyr, dysgu yn y gweithle, a rôl addysg uwch wrth fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd cymhleth."**
**Dr Fredrick Agboma, Uwch Ddarlithydd mewn Menter ac Entrepreneuriaeth, Prifysgol John Moores Lerpwl**

# Adnoddau arbenigol, dibynadwy: cynorthwyo â gwneud penderfyniadau gwell a chyflymach

**Mae QAA yn eich helpu i ddefnyddio arbenigedd ac adnoddau yn fwy effeithiol, gan arbed amser i chi. Mae ein hoffer ymarferol, canllawiau clir a mewnwelediad amserol yn lleihau dyblygu i'ch timau, yn symleiddio prosesau ansawdd effeithiol ac yn rhoi'r hyder i chi weithredu'n gyflym pan fydd y sector yn newid.**

### Sut rydyn ni'n eich helpu chi i hyrwyddo effeithlonrwydd

**Adnoddau sy'n gwreiddio arfer ansawdd effeithiol**
Mae ein hadnoddau a'n hoffer ymarferol yn lleihau'r baich gweinyddol ar eich timau. A thrwy ganllawiau a chefnogaeth glir, rydym yn eich helpu i symleiddio prosesau ansawdd fel y gall eich timau weithio'n fwy effeithlon a chyson.

**Cyhoeddiadau sy'n trosi syniadau'r sector yn weithredu**
Mae ein cyhoeddiadau rheolaidd ar gyfer timau ac ymarferwyr ansawdd yn pontio'r bwlch rhwng syniadau ar lefel y sector ac arferion o ddydd i ddydd. Maent yn cynnig dulliau clir, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n eich helpu i ymateb i flaenoriaethau heb ailddyfeisio datrysiadau.

**Mynediad rhyngwladol**
Mae aelodau Global Insights yn cael mynediad at wybodaeth ryngwladol ychwanegol, gan gynnwys digwyddiadau a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol sy'n cynorthwyo â gwneud penderfyniadau cyson ar draws ffiniau, gan gwmpasu pynciau fel::

- strategaeth ryngwladol
- prosesau ansawdd mewn sefydliadau aml-gampws ar draws y byd
- rhyngwladoli'r cwricwlwm
- llais a chefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol



"Galluogodd canllawiau QAA ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gen AI) i ni ddiweddaru rheoliadau moeseg a gosod disgwyliadau clir yn gyflym, gan osgoi'r angen am ddatblygu polisïau o'r dechrau a chreu cysondeb ar draws adrannau."
**Is-Reithor Ansawdd a Chynhwysiant, Prifysgol Polis**



# Hyrwyddo gwelliant trwy gydweithio

Fel aelod, gallwch wneud cais am gyllid ar gyfer **Prosiect Gwelliant Cydweithredol** (PGC) i weithio gyda sefydliadau a chyrff eraill ar flaenoriaethau a rennir. Mae'r prosiectau hyn yn dod ag arbenigedd ynghyd, yn lleihau dyblygu ac yn cynhyrchu offer ac ymchwil ymarferol sy'n fuddiol i'r sector.

Ers 2021, mae'r rhaglen wedi buddsoddi dros £827,000 mewn 91 o brosiectau ar draws 147 o sefydliadau o fewn y sector. Mae prosiectau wedi cynhyrchu adnoddau parod i'w defnyddio ar AI, llais myfyrwyr, cyflogadwyedd, a mwy.



"Rwy'n defnyddio adnoddau QAA i arwain ein gwaith bob dydd, o ysgrifennu polisïau i lunio gweithdrefnau a rheoliadau. Maent yn ffurfio sail i'r llawlyfrau gweithredu rydym yn eu datblygu ar gyfer partneriaid cydweithredol ac yn cefnogi ein gwaith partneriaeth â myfyrwyr. Mae'r delweddau'n rhoi trosolwg uniongyrchol o ystyriaethau allweddol, gan arbed amser a darparu sylfaen gref ar gyfer ymgysylltiad dyfnach."
**Dawn Martin, Pennaeth Llywodraethiant a Gwella Ansawdd, Prifysgol y Frenhines Margaret**

**Gwella sgoriau NSS**
Trwy PGC a ariennir gan QAA, llwyddodd Prifysgol De Montfort i gyflymu camau tuag at gyflyno fesul bloc - gan ddatblygu ymchwil, offer ac enghreifftiau ar y cyd, a helpodd dimau i ailgynllunio rhaglenni mewn wythnosau a symleiddio cymeradwyaeth. Y canlyniad terfynol oedd gwelliant mesuradwy yn sgoriau'r brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, gyda chynnydd yn enwedig o ran Addysgu ar fy Nghwrs (+11.6%) a Chyfleoedd Dysgu (+6.6%).




Image: Mat Fascione

# Llunio dyfodol addysg uwch: hyrwyddo ansawdd

**Mae QAA yn hyrwyddo dysgu ac addysgu o ansawdd uchel trwy ddylanwadu ar sut mae ansawdd yn cael ei ddeall, ei lywodraethu a'i gefnogi ar draws y sector. Rydym yn hyrwyddo eglurder a chydlyniant ar draws y system ansawdd fel y gallwch chi lywio newid yn hyderus a chanolbwyntio amser lle mae'n bwysicaf: gwella deilliannau ar gyfer eich myfyrwyr.**

**Dylanwadu ar system ansawdd gliriach a mwy cydlynol**
Rydym yn cynrychioli egwyddorion sicrhau ansawdd effeithiol mewn trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Gan weithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr, cyrff sector a chyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol, rydym yn hyrwyddo disgwyliadau cliriach, sydd wedi'u halinio'n well i leihau dyblygu a chreu system fwy cydlynol a chymesur. Mae ein mewnwelediadau polisi a'n dogfennau briffio sy'n edrych tua'r gorwel yn rhoi gweledigaeth cynnar i chi o'r hyn sy'n newid a beth mae hynny'n ei olygu i'ch sefydliad.

**Symbol cydnabyddedig o safonau ac ymddiriedaeth**
Mae aelodaeth hefyd yn cynnwys yr hawl i ddefnyddio bathodyn QAA, gan ddangos ymrwymiad eich sefydliad i ddiogelu safonau academaidd ac alinio â disgwyliadau sy'n cael eu parchu'n rhyngwladol - gan atgyfnerthu hygrededd ymysg myfyrwyr, partneriaid a rheoleiddwyr.

**Cryfhau dealltwriaeth o ansawdd ar draws eich sefydliad**
Mae QAA yn cryfhau sut mae ansawdd yn cael ei ddeall yn eich sefydliad trwy ddarparu cyfeirbwyntiau, fframweithiau a chanllawiau clir. Mae'r rhain yn helpu timau i lunio dehongliad mewnol cyson o safonau academaidd ac yn dangos sut mae ansawdd yn sail i ddysgu ac addysgu effeithiol. Rydym yn egluro disgwyliadau ac yn tynnu sylw at arfer effeithiol, gan eich galluogi i wreiddio dulliau sy'n adlewyrchu diwylliant a blaenoriaethau eich sefydliad.



"Mae aelodaeth o QAA yn golygu bod yn rhan o gymuned sy'n ymroddedig i welliant parhaus mewn addysg uwch, lle gallwn ni i gyd ddysgu o arferion gorau a chyfrannu at godi safonau ar draws y sector."
**Dr Craig Ruddock, Cyfarwyddwr Ansawdd a Chwricwlwm, Goldsmiths, Prifysgol Llundain**



# Llunio cyfeirbwyntiau'r sector a chryfhau safonau

**Mae gan QAA rôl flaenllaw yn y gwaith o gynnal y bensaernïaeth ansawdd sy'n perthyn i'r sector a ddefnyddir ledled y DU ac yn rhyngwladol. O Gôd Ansawdd y DU i fframweithiau credyd, mae ein gwaith yn creu cydlyniant ar draws systemau, gan roi disgwyliadau cliriach i chi weithio tuag atynt a sylfaen gryfach ar gyfer gwneud penderfyniadau.**

Mae cymuned fyd-eang o fwy na 60,000 o broffesiynwyr addysg uwch yn cyfrannu at yr ymdrech hon ar y cyd, gan ddangos ymrwymiad a rennir i ddiogelu safonau academaidd a chryfhau ansawdd ledled y byd.

Ers 2022, rydym wedi cyhoeddi 54 o Ddatganiadau Meincnod Pwnc diwygiedig ac, erbyn haf 2026, byddwn wedi cyhoeddi Cyngor a Chanllawiau ar bob un o 12 Egwyddor Côd Ansawdd y DU. Mae'r rhain wedi cael eu llunio'n uniongyrchol gan aelodau trwy ein grwpiau darllen ac ysgrifennu. Bydd gan aelodau fynediad unigryw i weithdai ar weithredu'r canllawiau hyn yn gymesur ac yn effeithiol.

Trwy QAA, mae eich timau'n rhan o gymuned ddibynadwy sy'n llunio'r fframweithiau, y disgwyliadau a'r cyfeirbwyntiau sy'n sail i ddarpariaeth o ansawdd uchel.



# Aelodaeth ar waith

**Mae cefnogaeth QAA yn trosi'n uniongyrchol yn fuddion ar draws eich sefydliad.**

### Mewnwelediadau sy'n egluro beth sy'n newid i chi a pham ei fod yn bwysig

Trwy ddogfennau briffio, dadansoddi a thrafodaethau sy'n seiliedig ar bynciau, mae QAA yn helpu aelodau i ddeall sut mae datblygiadau rheoleiddio a pholisi yn effeithio ar ansawdd a safonau academaidd, gan gynnig mewnwelediad clir ac ymarferol.

### Cyfleoedd i chi lunio cyfeirbwyntiau'r sector

Mae aelodau'n helpu i ddatblygu ac adolygu cyfeirbwyntiau craidd y sector - fel Datganiadau Meincnod Pwnc a Chôd Ansawdd y DU - gan sicrhau bod y fframweithiau hyn yn adlewyrchu cyd-destunau amrywiol, tra'n cynnal cysondeb ac ymddiriedaeth ar draws y sector.

### Arweinyddiaeth trwy syniadau sy'n hyrwyddo eich arferion ansawdd

Mae QAA yn dod â'r sector ynghyd i archwilio materion sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, uniondeb academaidd, ymgysylltiad myfyrwyr, a dulliau rheoleiddio sy'n esblygu. Mae'r sgyrsiau hyn yn hwyluso gwneud synnwyr ar y cyd ac yn helpu i lunio dulliau a rennir ar gyfer heriau'r dyfodol.



"Mae aelodaeth o QAA yn sicrhau bod gennym lais ystyrlon yn y sector. Trwy gymryd rhan mewn gweithgorau QAA a thrwy gynnal trafodaethau ar draws y sector, rydym yn gallu dysgu gan gyfoedion yn ogystal â chyfrannu at lunio canllawiau cenedlaethol. Mewn tirwedd sy'n esblygu'n gyflym, mae'r cyfuniad hwnnw o strwythur, mewnwelediad a chydweithio'n cryfhau ein gwaith yn wirioneddol ac yn cynorthwyo â gwneud penderfyniadau yn hyderus."
**Carly Rees, Rheolwr Ansawdd a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol De Cymru**



# Dull cyflawn o gryfhau eich gweithgaredd rhyngwladol

**Yn yn ogystal ag aelodaeth graidd, gallwch gael mynediad at ddau becyn sydd wedi'u cynllunio i gryfhau eich gweithgaredd rhyngwladol.**

**Gyda'i gilydd, maent yn cefnogi eich cyfeiriad strategol, eich cyflawniad o ddydd i ddydd a'ch uchelgeisiau byd-eang hirdymor.**

### Global Insights

**Cymorth cyfannol ar gyfer llywio a ffynnu mewn tirwedd ryngwladol sy'n esblygu**
Mae Global Insights yn rhoi eglurder a hyder i chi mewn amgylchedd byd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae'n cwmpasu themâu rhyngwladol allweddol - gan gynnwys strategaeth ryngwladol, symudedd myfyrwyr, rhyngwladoli'r cwricwlwm, a chymorth i fyfyrwyr rhyngwladol. Hyn yn ogystal â darparu adroddiadau gwlad eang eu cwmpas a mewnwelediad i bolisi byd-eang i'ch helpu i ddeall y dirwedd ryngwladol ehangach. Byddwch hefyd yn cael mynediad at gymunedau rhwydweithio a chynhadledd Global Insights newydd sy'n arwain y sector, gan eich cysylltu â chyfoedion a chryfhau gwneud penderfyniadau strategol, effeithiolrwydd gweithredol ac ymgysylltiad byd-eang.

### Cynllun Ansawdd ADW y DU

**Cymorth ymarferol wedi'i dargedu dan arweiniad y sector ar gyfer darparu addysg draws-wladol o ansawdd uchel yn hyderus**
Mae Cynllun Ansawdd ADW y DU yn canolbwyntio'n benodol ar addysg draws-wladol, gan dynnu ar bartneriaethau a threfniadau ADW byw, i ddarparu dysgu gan gymheiriaid dan arweiniad y sector ochr-yn-ochr â hyfforddiant a chanllawiau QAA wedi'u teilwra'n benodol ar eich cyfer. Mae mewnwelediadau thematig a chrynodebau rheoleiddio penodol-i-wledydd y cynllun yn rhoi gwybodaeth wedi'i thargedu i chi lywio cyd-destunau rhyngwladol amrywiol, gan gefnogi darpariaeth ADW gynaliadwy o ansawdd uchel. Mae'r symposiwm wyneb-yn-wyneb blynyddol ar Arferion Addysg Draws-wladol yn darparu cyfle ar gyfer trafodaeth a rhwydweithio, yn ogystal â sesiynau ymarferol sy'n rhoi gwybodaeth ymarferol i'r mynychwyr ei chymhwyso i'w gweithgareddau ADW eu hunain.

### Dau gynnig cyflenwol, un dull cydgysylltiedig

Mae Global Insights a Chynllun Ansawdd ADW y DU yn darparu'r gefnogaeth ryngwladol sydd ei hangen arnoch chi - un sy'n eang a strategol, ac un sy'n fwy penodol ac ymarferol - y naill a'r llall wedi'u cynllunio i gryfhau eich effaith fyd-eang.

Mae Adran Addysg Lloegr (DfE) yn cefnogi Cynllun Ansawdd Addysg Draws-wladol y DU gan QAA fel ffordd o gryfhau ansawdd addysg draws-wladol a gyflwynir gan ddarparwyr yn Lloegr, gan adlewyrchu blaenoriaethau Strategaeth Addysg Ryngwladol llywodraeth y DU. Mae'n annog darparwyr addysg uwch yn Lloegr sy'n ymwneud ag ADW i ymgysylltu â'r cynllun.



# Dewch yn aelod o QAA ar gyfer 2026-27

**Mae bod yn aelod o QAA yn datgloi mynediad parhaus at ein cefnogaeth, ein gwybodaeth a'n hadnoddau unigryw - gan helpu eich sefydliad i ragori ac arloesi mewn amgylchedd addysg uwch a thrydyddol deinamig.**

Gallwch hefyd wella eich ymgysylltiad trwy Global Insights, ein ffynhonnell wybodaeth ryngwladol, a Chynllun Ansawdd ADW y DU, sy'n cefnogi darpariaeth addysg draws-wladol o ansawdd uchel.

Cysylltwch â'n tîm i drafod dod yn aelod ac archwilio sut y gall aelodaeth o QAA, Global Insights a Chynllun Ansawdd ADW y DU eich helpu i roi ansawdd ar waith yn 2026-27.



© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2026

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 and SC037786

www.qaa.ac.uk